**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**23 CHWEFROR 2023**

Cofnodion cyfarfod hybrid Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd ddydd Iau, 23 Chwefror 2023.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Mared Eastwood (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Glyn Banks, Pam Banks, Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Gillian Brockley, Helen Brown, Mel Buckley, Teresa Carberry, Tina Claydon, David Coggins Cogan, Geoff Collett, Steve Copple, Bill Crease, Paul Cunningham, Jean Davies, Rob Davies, Ron Davies, Adele Davies-Cooke, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Carol Ellis, David Evans, Chrissy Gee, David Healey, Gladys Healey, Ian Hodge, Andy Hughes, Dave Hughes, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Alasdair Ibbotson, Paul Johnson, Christine Jones, Richard Jones, Simon Jones, Richard Lloyd, Dave Mackie, Gina Maddison, Roz Mansell, Allan Marshall, Hilary McGuill, Ryan McKeown, Billy Mullin, Debbie Owen, Ted Palmer, Andrew Parkhurst, Mike Peers, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Carolyn Preece, David Richardson, Ian Roberts, Dan Rose, Kevin Rush, Dale Selvester, Jason Shallcross, Sam Swash, Linda Thew, Linda Thomas, Ant Turton, Roy Wakelam, Arnold Woolley ac Antony Wren

**HEFYD YN BRESENNOL:** Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid), Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol), Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth), Prif Swyddog (Tai ac Asedau), Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Rheolwr Corfforaethol (Pobl a Datblygu Sefydliadol), Rheolwr Corfforaethol (Rhaglen Gyfalaf ac Asedau), Rheolwr Refeniw a Chaffael, Rheolwyr Cyllid Strategol a’r tîm Gwasanaethau Democrataidd.

## 81. DATGAN CYSYLLTIAD

Yn ystod trafodaeth ar Gyllideb Refeniw Cronfa'r Cyngor 2023/24 (eitem 6 ar y rhaglen), gwnaeth y Cynghorydd Dennis Hutchinson ddatgan cysylltiad personol gan ei fod yn ddarparwr cludiant sydd â chontract â’r ysgol.

Gwnaeth yr Aelodau canlynol ddatgan cysylltiad personol â’r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2023/24 (eitem 10 ar y rhaglen) gan fod ganddyn nhw gysylltiad agos â phobl sydd wedi’u cyflogi gan y Cyngor: Y Cynghorwyr Bernie Attridge, Chris Bithell, Mel Buckley, Andy Hughes, Dennis Hutchinson, Christine Jones, Hilary McGuill, Ted Palmer, Andrew Parkhurst, Kevin Rush a Dale Selvester.

## 82. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2022 a 24 Ionawr 2023.

**13 Rhagfyr 2022**

Cywirdeb - cywiro’r gwall sillafu yn enw’r Cynghorydd Collett.

Materion yn Codi - Cofnod rhif 57: Cynllun Premiwm Treth y Cyngor ar gyfer Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor - byddai ymateb i'r cwestiynau a gododd y Cynghorydd Mike Peers yn y paragraff olaf ond un yn cael ei ddosbarthu.

**24 Ionawr 2023**

Cywirdeb - Cofnod rhif 68: Rhaglen Gyfalaf 2023/24-2025/26 - mewnosod yr esboniad llawn a roddodd y Rheolwr Corfforaethol (Rhaglen Gyfalaf ac Asedau) mewn ymateb i gwestiwn y Cynghorydd Peers o ran ariannu gwaith atgyweirio a chynnal a chadw ysgolion hŷn.

Cywirdeb - Cofnod rhif 76: Rhybudd o Gynnig - cofnodi bod cynnig y Cynghorydd Lloyd wedi'i eilio gan y Cynghorydd Shallcross.

Materion yn Codi - Cofnod rhif 75: Amseroedd ac Amserlen Cyfarfodydd y Cyngor - dywedodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod dechrau cyfarfodydd y Cyngor Sir am 1pm fel yr awgrymwyd yn cael ei ystyried yn rhan o'r gwaith yn ymwneud â Dyddiadur y Cyfarfodydd ar gyfer 2023/24, ynghyd â'r cais i foreau'r dyddiadau hynny gael eu cadw'n rhydd pan fo modd.

Ar sail hynny, cafodd y ddwy set o gofnodion eu cymeradwyo.

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y gwelliannau, cymeradwyo cofnodion 13 Rhagfyr 2022 a 24 Ionawr 2023 yn gofnod cywir.

## 83. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Cyflwynodd y Cadeirydd ei chyhoeddiadau yn ymwneud â digwyddiadau a aethpwyd iddyn nhw ers y cyfarfod blaenorol.

## 84. DEISEBAU

Dim.

## 85. CYLLIDEB REFENIW CRONFA'R CYNGOR 2023/24 – Y CAM CLO TERFYNOL

Derbyniwyd adroddiad yn cynnwys yr argymhellion gan y Cabinet i'r Cyngor bennu Cyllideb Refeniw Cronfa'r Cyngor sy'n gyfreithiol a chytbwys ar gyfer 2023/24.

Gosododd y Cynghorydd Bernie Attridge gynnig i atal Rheolau Sefydlog i ganiatáu'r Cynghorydd Richard Jones i siarad am fwy na'r pum munud a ganiateir er mwyn cyflwyno cyllideb amgen, gan fod y cais i rannu cyflwyniad sleidiau ar hyn wedi'i wrthod. Cafodd ei eilio gan y Cynghorydd Dennis Hutchinson.

Yn dilyn cyngor ar y cynnig gweithdrefnol gan y Prif Swyddog (Llywodraethu), dywedodd y Cadeirydd nad oedd hi’n caniatáu ymestyn yr amser siarad, fel yr oedd hi wedi dweud o’r blaen, ac y byddai'r cynnig yn mynd ymlaen i bleidlais.

Wrth siarad yn erbyn y cynnig, dywedodd y Cynghorydd Ian Roberts y bu cyfleoedd i Aelodau gyflwyno sylwadau drwy gydol y broses gyllidebol, heb unrhyw gyfyngiadau ar yr amser siarad.

Wrth ddefnyddio ei hawl i ymateb, galwodd y Cynghorydd Attridge am ganiatáu i Aelodau eraill a oedd yn bresennol i siarad ar y mater.

Dywedodd y Cynghorydd Richard Jones nad oedd modd cyflwyno sylwadau yn gynharach yn y broses gan nad oedd y gyllideb wreiddiol wedi'i darparu bryd hynny. Gofynnodd felly fod y ddwy gyllideb gael eu hystyried yn y cyfarfod hwn.

Gofynnwyd i'r aelodau bleidleisio ynglŷn ag a ddylid derbyn y cynnig i atal Rheolau Sefydlog er mwyn caniatáu i'r Cynghorydd Jones siarad am y gyllideb amgen am fwy na phum munud. O’i roi i bleidlais, gwrthodwyd y cynnig.

Rhoddodd y Prif Weithredwr, y Rheolwr Cyllid Corfforaethol a’r Rheolwr Refeniw a Chaffael, gyflwyniad manwl yn seiliedig ar yr adroddiad a gyflwynwyd i’r Cabinet yn gynharach yn y dydd, a oedd yn ymdrin â’r canlynol:

- Gosod cyllideb gytbwys a chyfreithlon
- Y daith hyd yma...
- Newidiadau i’r gofyniad cyllidebol ychwanegol ar gyfer 2023/24
- Gofyniad cyllidebol ychwanegol 2023/24
- Datrysiadau Cyllidebol 2023/24
- Treth y Cyngor
- Cyllidebau Ysgolion a Gofal Cymdeithasol
- Risgiau Agored
- Cronfeydd wrth gefn
- Barn Broffesiynol a Sylwadau i Gloi
- Edrych i’r Dyfodol
- Y Camau Nesaf ac Amserlenni

Roedd yr adroddiad yn nodi nifer o newidiadau ers y sefyllfa ym mis Ionawr, gan arwain at ofyniad cyllidebol ychwanegol terfynol o £37.098 miliwn ynghyd â chanlyniad y gwaith ar yr amrywiaeth o ddatrysiadau cyllidebol arfaethedig sydd ar gael i alluogi’r Cyngor osod cyllideb gyfreithiol a chytbwys ar gyfer 2023/24. Ar sail hynny, yr oedd angen cynnydd blynyddol cyffredinol o 3.99% ar Dreth y Cyngor ar gyfer gwasanaethau’r Cyngor a 0.96% ar gyfer cyfraniadau ychwanegol i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Gwasanaeth y Crwner Rhanbarthol a Chonsortiwm Addysg Rhanbarthol (GwE). Roedd hyn yn cyfateb i gynnydd cyffredinol o 4.95% a roddodd arenillion ychwanegol cyffredinol o £5.622 miliwn yn 2023/24. Roedd data cymharol yn awgrymu bod y cynnydd arfaethedig hwn ar gyfer Treth y Cyngor yn Sir y Fflint ychydig yn is na chyfartaledd cyffredinol Cymru ar hyn o bryd.

Tynnwyd sylw at nifer o risgiau agored sylweddol ar gyfer 2023/24 yn cynnwys galw cynyddol am y gwasanaeth digartrefedd a Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir yn ogystal â risgiau newydd fel y gosb ailgylchu gwastraff posibl, pwysau chwyddiant parhaus a disgwyl am gadarnhad ar gyfer rhai grantiau penodol.

Roedd y wybodaeth ddiweddaraf am y cronfeydd wrth gefn yn cynnwys y sefyllfa ddiweddaraf â'r Gronfa Argyfwng a'r rhestr o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a neilltuwyd ar gyfer ymrwymiadau a risgiau y gwyddys amdanynt, gan nodi bod gan Sir y Fflint un o'r cronfeydd wrth gefn isaf yng Nghymru. O ran cronfeydd wrth gefn heb eu clustnodi, yr oedd casgliad proses y Cynllun Datblygu Lleol wedi arwain at ychwanegu rhagor o arian at y Cronfeydd Wrth Gefn a ddaeth â'r cyfanswm hwnnw i £6.591 miliwn. Er bod y Rheolwr Cyllid Corfforaethol yn argymell y dylid cynnal lefel sylfaenol y cronfeydd wrth gefn ar gyfer 2023/24, dywedodd y dylai hyn gael ei adolygu ar gyfer cyllideb 2024/25 i ddiogelu rhag risgiau agored ac o ystyried y setliadau mynegol is ar gyfer 2024/25 a 2025/26.

Cynigiwyd y saith argymhelliad yn yr adroddiad o'r Cabinet i'r Cyngor gan Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Ian Roberts, a roddodd gefndir i'r cynigion. Gwnaeth ddiolch i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru (LlC) am effaith gadarnhaol y cyllid canlyniadol sydd wedi'i gynnwys yn rhan o'r Setliad Dros Dro a dywedodd fod yr adroddiad yn adlewyrchu casgliad proses gyllidebol gynhwysfawr yn cynnwys pwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

Ac yntau'n Aelod Cabinet Cyllid, eiliodd y Cynghorydd Paul Johnson y cynnig a dywedodd fod yr adroddiad yn cynrychioli gwaith sylweddol a llawer o benderfyniadau anodd. Wrth gyfeirio at risgiau parhaus ar gynnydd mewn chwyddiant a chostau ynni, ailadroddodd bwysigrwydd cynnal lefelau digonol o gronfeydd wrth gefn.

Cynigiodd y Cynghorydd Richard Jones welliant yn ddewis arall yn lle cam clo terfynol y gyllideb refeniw yr oedd wedi'i gynnig. Gwnaeth y Cynghorydd Attridge ei eilio.

*Ar yr adeg hon yn y cyfarfod, gwnaeth y Cadeirydd gytuno i ohiriad er mwyn caniatáu i'r Aelodau ystyried y gyllideb ddiwygiedig yr oedd wedi'i dosbarthu.*

Cyflwynodd y Cynghorydd Richard Jones y gwelliant fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Dewisiadau o ran gostyngiadau nad ydynt ar gael yn y gyllideb amgen: | £ |
| Gostyngiad yng nghontract ariannu NEWydd ar gyfer prydau ysgol gynradd | 19,000 |
| Cynnydd mewn prisiau parcio ceir | 187,000 |
| Cyflwyno prisiau parcio ym mhob maes parcio arall y Cyngor | 35,000 |
| Cyflwyno goleuadau stryd sydd ymlaen am ran o'r nos mewn ardaloedd | 18,000 |
| preswyl | 35,000 |
| Cynllun hyfforddai prentisiaeth - tynnu cyllid yn ôl | 140,000 |
| Cael gwared ar y pwysau am Gynllun Trwyddedu ychwanegol ar gyfer Tai | |
| Amlfeddiannaeth | 72,000 |
| Prentisiaethau Modern - gostyngiad yn y cohort | 60,000 |
| Llai o oriau yng Nghanolfannau'r Wyddgrug a Bwcle yn Cysylltu | |
| | 566,000 |
| <u>Dewis ychwanegol ar gael yn y gyllideb amgen:</u> | |
| Gofal cartref | 150,000 |

**£566,000 - £150,000 = £416,000 o gyllid ychwanegol ei angen**

Roedd y cyllid ychwanegol yr oedd ei angen drwy ddileu arbedion effeithlonrwydd portffolio a'r eitem ychwanegol fel a ganlyn:

- Adolygiad Actiwaraidd Bob Tair Blynedd o'r Gronfa Bensiwn - cyfraniad o £2.90 miliwn ar gyfer 2023/24, gan adael unrhyw swm sy'n weddill ar gyfer y ddwy flynedd nesaf (£2.65 miliwn yn y gyllideb wreiddiol)
- Cyllideb ysgolion - gostyngiad o 3.3% mewn cyllidebau dirprwyedig ysgolion (gostyngiad o 3% yn y gyllideb wreiddiol)
- Treth y Cyngor - cynnydd blynyddol o 4.8% (4.95% yn y gyllideb wreiddiol)

Wrth gydnabod yr heriau o ran creu cyllideb gytbwys yn gyfreithiol, dywedodd y Cynghorydd Jones fod y gyllideb amgen hon yn lleihau'r risg i bortffolios ac yn darparu datrysiad tecach a fyddai'n lleihau'r cynnydd yn Nhreth y Cyngor ac yn diogelu Canolfannau Sir y Fflint yn Cysylltu, y stryd fawr a phrentisiaethau yn ogystal â diogelwch trigolion. O ran y gofyniad cyllidebol ychwanegol yn adroddiad y Cabinet, tynnodd sylw at gyfraniad ardoll y Cyngor i Gyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru y dywedodd y gallai fod wedi'i ddefnyddio mewn mannau eraill er budd trigolion Sir y Fflint.

Gan gefnogi'r gwelliant, siaradodd y Cynghorydd Dennis Hutchinson yn erbyn cynyddu prisiau parcio ceir a lleihau oriau Canolfannau Sir y Fflint yn Cysylltu.

Er bod y Cynghorydd Bill Crease yn cydnabod yr angen am ostyngiadau ar draws yr holl bortffolios, dywedodd y byddai'r manteision a oedd yn deillio o'r gyllideb amgen yn helpu i ddiogelu prentisiaethau a masnachwyr y stryd fawr.

Tynnodd y Cynghorydd Helen Brown sylw at yr effaith y byddai cynyddu prisiau parcio yn ei gael ar drigolion. Mynegodd ei siom nad oedd y grŵp gwrthblaid mwyaf wedi cael cyfle i gyflwyno ei gyllideb amgen yn llawn.

Roedd y Cynghorydd Andrew Parkhurst yn teimlo fod y gyllideb wreiddiol yn cael ei harwain gan swyddogion ac nad oedd yn ystyried yr effaith ar drigolion.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Carol Ellis at y ffaith nad oedd Sir y Fflint wedi dyrannu'r cyllid fesul pen yn deg yng nghyd-destun pob awdurdod yng Nghymru. Aeth ymlaen i godi pryderon am effaith y cynnydd ym mhrisiau parcio ar ganol trefi ac effaith lleihau oriau Canolfannau Sir y Fflint yn Cysylltu ar drigolion.

Mynegodd y Cynghorydd Mike Peers bryderon nad oedd cofnod o'r sylwadau a godwyd yn ystod ymgynghoriad â phwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar leihau costau ar gael. Holodd ynghylch y tanwariant o £0.445 miliwn yn y portffolio Cynllunio a nodwyd yn flaenorol yn bwysau ac aeth ymlaen i ddweud bod y gyllideb amgen yn diogelu gwasanaethau o'r gwerth mwyaf i drigolion a'i fod wedi awgrymu newid oriau agor Canolfannau Sir y Fflint yn Cysylltu yn yr Wyddgrug a Bwcle bob yn ail.

I gefnogi'r gyllideb amgen, tynnodd y Cynghorwyr Debbie Owen, Glyn Banks a Dale Selvester sylw at bwysigrwydd cadw Prentisiaethau Modern tra

gwnaeth y Cynghorydd Roz Mansell ddadlau yn erbyn cael gwared ar y pwysau am y cynllun Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth.

Dywedodd y Cynghorydd Attridge fod gwaith sylweddol wedi'i wneud ar y gyllideb amgen ac yr oedd yn teimlo y dylai'r un amser fod wedi'i neilltuo i'w chyflwyno â'r gyllideb wreiddiol. Disgrifiodd Ganolfannau Sir y Fflint yn Cysylltu yn wasanaeth ‘blaenllaw’ na ddylid rhoi straen arno. Gofynnodd am bleidlais wedi’i chofnodi, a gwnaeth y nifer gofynnol o Aelodau gefnogi.

Wrth siarad o blaid y gyllideb wreiddiol, dywedodd y Cynghorydd Simon Jones mai ychydig iawn o arian y byddai’n cael ei arbed bob blwyddyn o ganlyniad i’r cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor o’i gymharu â’r gyllideb wreiddiol.  Gwnaeth hefyd ddadlau yn erbyn y gostyngiad ychwanegol yng nghyllidebau dirprwyedig ysgolion o ystyried y pwysau presennol ar ysgolion.

Dywedodd y Cynghorydd Teresa Carberry nad oedd rhannu cyllideb amgen ar y cam olaf hwn yn caniatáu amser ar gyfer rhoi ystyriaeth lawn, a mynegodd bryderon penodol ynghylch y byddai’r gostyngiad ychwanegol arfaethedig yng nghyllidebau ysgolion dirprwyedig yn ychwanegu at y pwysau sylweddol mewn ysgolion o ganlyniad i’r pandemig.  A hithau’n Gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant, dywedodd fod yr arbedion effeithlonrwydd portffolio wedi'u derbyn ac ni wnaethpwyd unrhyw sylwadau ar y pryd.

Rhannodd y Cynghorwyr Tina Claydon a Paul Cunningham bryderon ynghylch cyflwyno’r gyllideb amgen yn hwyr, fel y gwnaeth y Cynghorydd Hilary McGuill a alwodd am gynigion amgen i gael eu cyflwyno ar yr un pryd â’r gyllideb wreiddiol yn y dyfodol er mwyn galluogi’r ddau i gael eu hystyried yn llawn.

Dywedodd y Cynghorydd Marion Bateman y dylai'r grŵp Annibynnol fod wedi cael yr un faint o amser â'r gyllideb wreiddiol i gyflwyno eu cynigion.

Wrth siarad o blaid y gyllideb wreiddiol, cyfeiriodd y Cynghorydd Chris Bithell at yr amser a gymerwyd i baratoi a chyrraedd y cam olaf hwn o’r broses yn cynnwys ymgynghori ac adrodd ar y gwahanol gamau.

Awgrymodd y Cynghorydd Arnold Woolley y dylai sylwadau’r Aelodau ynghylch prentisiaethau gael eu hystyried ar gyfer y dyfodol.  O ran y cynnydd arfaethedig i brisiau parcio, cyfeiriodd at yr effaith amgylcheddol.

Gwnaeth y Cynghorydd Carolyn Preece, a siaradodd yn erbyn y gyllideb amgen gan ddweud y byddai'n rhoi mwy o bwysau ar y sector addysg, ganmol proffesiynoldeb swyddogion drwy gydol proses y gyllideb. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith bod y gostyngiad mewn prentisiaethau yn y gyllideb wreiddiol yn adlewyrchu canran fach.

Dywedodd y Cynghorydd Ian Roberts y byddai unrhyw bryderon ynghylch prentisiaethau a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori wedi’u hystyried ac addawodd y byddai’r Cabinet yn edrych ar brentisiaethau ar fyrder ac yn adrodd yn ôl i’r pwyllgor perthnasol.

Fel y gofynnwyd, eglurodd y Rheolwr Refeniw a Chaffael mai'r gwahaniaeth rhwng cynnydd yn Nhreth y Cyngor o 4.8% o'i gymharu â 4.95% ar gyfer eiddo Band D fyddai £2.17 y flwyddyn neu 4c yr wythnos.

Fel Swyddog Adran 151, rhoddodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol wybod i'r Aelodau am yr ystyriaethau angenrheidiol i ddod i benderfyniad o ran y gyllideb. Cadarnhaodd y gofynnwyd am ei gyngor ar y gyllideb amgen cyn y cyfarfod a'i bod yn cynrychioli sefyllfa gyfreithiol a chytbwys pe bai'r Cyngor yn ei chymeradwyo. Er bod swyddogion wedi rhoi cyngor ar y risgiau, cyfrifoldeb yr Aelodau oedd ystyried ac asesu'r effeithiau hynny. Wrth sôn am yr effaith a'r risgiau o'r gyllideb amgen, dywedodd y byddai gostyngiad ychwanegol o £0.250 miliwn o adolygiad actiwaraidd y Gronfa Bensiwn yn golygu y byddai llai o arian ar gael i gyfrannu at arbedion effeithlonrwydd y flwyddyn nesaf, a fyddai'n cynyddu'r heriau o ganlyniad i setliad mynegol is ar gyfer 2024/25. Er nad oedd hyn yn swm sylweddol yng nghyd-destun y gyllideb yn gyffredinol, byddai angen cael y swm o rywle arall. O ran cyllidebau dirprwyedig ysgolion, dywedodd y byddai'r gostyngiad ychwanegol arfaethedig yn risg arall i'r sector. O ran effeithlonrwydd ychwanegol ar gostau gofal cartref, dywedodd fod y dewisiadau o ran lleihau costau a gyflwynwyd ym mis Rhagfyr 2022 i gyd wedi'u hadolygu'n fanwl er mwyn sicrhau mai dewisiadau risg isel a chanolig yn unig yr oedd wedi'u cynnwys fel y rhai mwyaf ymarferol. O ran cyfran amcangyfrifedig y Cyngor o gyllid canlyniadol addysgol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, nodwyd y byddai cyllid sy'n cael ei ddyrannu i ysgolion yn gostwng o £0.448 miliwn yn uwch na'r amcangyfrif (cyllideb wreiddiol) i £0.072 miliwn (cyllideb amgen) yn uwch na'r amcangyfrif. Gofynnodd i'r Prif Swyddogion perthnasol am eu cyngor nhw ar effaith y cynigion amgen ar addysg a gofal cymdeithasol.

Fel Cyfarwyddwr Statudol Addysg, dywedodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) y cydnabuwyd y byddai angen i ysgolion wneud eu rhan i gyflawni cyllideb gyfreithiol a chytbwys gan fod y rhan fwyaf o gyllideb y Cyngor yn mynd i ysgolion. Yn ystod ymgysylltu helaeth â chynrychiolwyr ysgolion, mynegwyd pryderon ynghylch effaith gostyngiadau yn y gyllideb ar staff a dysgwyr, yn enwedig o ystyried effaith hirdymor y pandemig. Ar sail hynny, argymhellodd yn gryf yn erbyn gwneud unrhyw ostyngiad arall i gyllidebau ysgolion sy'n fwy na 3% gan y byddai hyn yn gwaethygu'r heriau i'r sector. Dywedodd hefyd am oblygiadau posibl peidio ag ystyried effaith cyllid canlyniadol yn llawn ac unrhyw oedi wrth gyhoeddi cyllidebau ysgolion. Cafodd yr aelodau eu hatgoffa bod lefelau uchel o falansau ysgolion a gyhoeddwyd y llynedd, o ganlyniad i arian grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, yn gostwng yn unol â gofynion rheoliadol. Byddai angen i ysgolion reoli eu cronfeydd wrth gefn yn ddoeth i gyflawni cyllidebau cytbwys a bydden nhw'n parhau i fod dan bwysau sylweddol. Eglurwyd bod ysgolion wedi cael gwybod y byddai eu cyllidebau nhw'n gostwng rhwng 3-5% cyn cyhoeddi'r rhaglen â'r gostyngiad arfaethedig o 3%.

Fel Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol, dywedodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) nad oedd yn gallu cefnogi'r gostyngiad arfaethedig yng ngofal cartref yn y gyllideb amgen o ganlyniad i risgiau annerbyniol. Cyfeiriodd at y cyfnod heriol iawn yn ystod cyfnod yr hydref a'r gaeaf pryd yr oedd pwysau ar wasanaethau gofal cymdeithasol yn ogystal ag ar ysbytai a darpariaeth gofal cartref. Er bod y Cyngor wedi cynnal gwasanaethau mewnol yn ystod y cyfnod hwn, byddai unrhyw ostyngiad yn narpariaeth gofal

cartref yn creu risgiau newydd, yn enwedig gan fod nifer o ddarparwyr cartrefi gofal annibynnol wedi cau eu busnesau yn ystod y cyfnod.

Wrth grynhoi, ymatebodd y Cynghorydd Richard Jones i rai o'r sylwadau a godwyd. Eglurodd mai'r gostyngiad cynyddol yng nghyllideb yr ysgolion oedd £309,000 a bod y dewisiadau o ran gofal cymdeithasol yn cael eu graddio o ran risg yn oren/gwyrdd (canolig/isel) pan gafodd ei rannu ym mis Rhagfyr 2022. O ran amseru, dywedodd nad oedd rhai o'r ffigurau ar gael tan yn ddiweddar a bod y gyllideb amgen, yr oedd y Swyddog Adran 151 yn ei hystyried yn ddilys, yn ceisio lleihau risgiau yn y portffolios a lliniaru yn erbyn rhagor o gynnydd, a rhoi gobaith i drigolion. Ar sail hynny, cymeradwyodd y gyllideb amgen i'r Cyngor.

O'i roi i bleidlais wedi'i chofnodi, collwyd y diwygiad fel a ganlyn:

**O blaid y diwygiad:**
Mike Allport, Bernie Attridge, Glyn Banks, Pam Banks, Marion Bateman, Helen Brown, Steve Copple, Bill Crease, Jean Davies, Rob Davies, Adele Davies-Cooke, Carol Ellis, Chrissy Gee, Ian Hodge, Andy Hughes, Dennis Hutchinson, Richard Jones, Dave Mackie, Roz Mansell, Allan Marshall, Debbie Owen, Andrew Parkhurst, Mike Peers, David Richardson, Dale Selvester, Jason Shallcross, Linda Thew, Ant Turton, Roy Wakelam ac Antony Wren

**Yn erbyn y diwygiad:**
Sean Bibby, Chris Bithell, Gillian Brockley, Mel Buckley, Teresa Carberry, Tina Claydon, Geoff Collett, Paul Cunningham, Ron Davies, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Mared Eastwood, David Evans, David Healey, Gladys Healey, Dave Hughes, Ray Hughes, Alasdair Ibbotson, Paul Johnson, Christine Jones, Simon Jones, Richard Lloyd, Gina Maddison, Billy Mullin, Hilary McGuill, Ryan McKeown, Ted Palmer, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Carolyn Preece, Ian Roberts, Dan Rose, Kevin Rush, Sam Swash and Linda Thomas ac Arnold Woolley

**Ymatal:**
Dim

Roedd y cynnig gwreiddiol wedi'i gynnig a'i eilio eisoes, a phleidleisiwyd arno a'i dderbyn fel a ganlyn:

1. Bod y Cyngor yn nodi ac yn cymeradwyo'r gofyniad cyllidebol diwygiedig ychwanegol ar gyfer 2023/24;

2. Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r cynigion terfynol ar gyfer y gostyngiadau yn y costau a fydd yn cyfrannu at y gyllideb;

3. Bod y Cabinet yn argymell cyllideb gyfreithiol a chytbwys i'r Cyngor yn seiliedig ar y cyfrifiadau sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad;

4. Bod y Cabinet yn nodi'r risgiau agored y mae angen eu rheoli yn ystod y flwyddyn ariannol 2023/24;

5. Bod y Cabinet yn argymell cynnydd blynyddol cyffredinol o 3.99% ar Dreth y Cyngor ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor a 0.96% ar gyfer

cyfraniadau i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Gwasanaeth y Crwner Rhanbarthol a Chonsortiwm Addysg Rhanbarthol (GwE) - cynnydd o 4.95%;

6. Bod y Cabinet yn gwahodd y Cyngor i gymeradwyo Treth y Cyngor ffurfiol gan ein bod ni bellach wedi cael gwybod am braeseptau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a phob Cyngor Tref a Chymuned yn Sir y Fflint; a

7. Bod y Cyngor yn nodi'r rhagolygon tymor canolig yn sail ar gyfer yr adolygiad nesaf o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo argymhellion y Cabinet, fel y manylir uchod, ar gyfer sicrhau cyllideb gytbwys ar gyfer 2023/24; a

(b) Cymeradwyo lefel Treth y Cyngor ar gyfer 2023/24 fel yr argymhellwyd gan y Cabinet.

*Ar yr adeg hon yn y cyfarfod, cafwyd gohiriad byr.*

## 86. GOSOD TRETH Y CYNGOR AR GYFER 2023/24

Cyflwynodd y Rheolwr Refeniw a Chaffael yr adroddiad i bennu taliadau Treth y Cyngor a phenderfyniadau statudol cysylltiedig yn ffurfiol ar gyfer 2023/24 yn rhan o strategaeth ehangach y gyllideb ar sail y penderfyniad a wnaed ar yr eitem flaenorol. Gofynnwyd i'r Aelodau gymeradwyo parhad cynllun Premiwm Treth y Cyngor a'r arfer i swyddogion dynodedig arwain ar achosion cyfreithiol ar ran y Cyngor.

Roedd lefel gyffredinol Treth y Cyngor yn cynnwys tri phraesept ar wahân a oedd yn rhan o'r cyfanswm a godwyd ar bob eiddo. Roedd y cynnydd o 3.99% yn elfen y Cyngor yn bodloni disgwyliadau o ran fforddiadwyedd a byddai, ynghyd â chyllid llywodraeth ganolog a'r Grant Cynnal Refeniw, yn helpu i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen ac yn cynnal graddfa a chymhlethdod y galw am wasanaethau. Roedd y cyfanswm a godwyd gan Dreth y Cyngor yn cynnwys cyfanswm praesept y Cyngor Sir o £101,126,334; cyfanswm praesept Comisiynydd Heddlu a Throsedd Heddlu Gogledd Cymru o £21,922,318; a phraesept gyfunol o £3,421,107 ar draws pob Cyngor Tref a Chymuned.

Cafodd yr argymhellion eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Ian Roberts a Paul Johnson.

Gwnaeth y Cynghorydd Richard Jones sylwadau ar y gostyngiad parhaus yn y cynnydd blynyddol yng Nghyllid Allanol Cyfun y Cyngor gan Lywodraeth Cymru a oedd yn effeithio ar drigolion o ran lefelau Treth y Cyngor.

Cafodd ei sylwadau eu cydnabod gan y Cynghorwr Chris Bithell a gyfeiriodd at yr effaith a gaiff llai o gyllid canolog ar wasanaethau'r Heddlu.

Roedd yr argymhellion wedi'u cynnig a'u heilio, ac felly cafwyd pleidlais ar bob un o'r argymhellion a chawsant eu derbyn.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod Treth y Cyngor 2023/24 yn cael ei gosod fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad;

(b) Cymeradwyo parhau â'r polisi o beidio â rhoi gostyngiad yn lefel taliadau Treth y Cyngor 2023/24 ar gyfer ail gartrefi a chartrefi gwag hirdymor. Yn ogystal â hyn, pan nad yw eithriadau'n berthnasol, codi cyfradd Premiwm Treth y Cyngor o 75% yn uwch na chyfradd safonol Treth y Cyngor ar anheddau gwag hirdymor dynodedig a 100% ar ail gartrefi o 1 Ebrill 2023; a

(c) Cymeradwyo swyddogion dynodedig i fynd ymlaen â chamau cyfreithiol ac ymddangos ar ran y Cyngor yn Llys yr Ynadon am drethi heb eu talu.

## 87. STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2023/24, DATGANIAD POLISI RHEOLI'R TRYSORLYS, ARFERION AC ATODLENNI 2023-26

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ddrafft ar gyfer 2023/24 ar y cyd â Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys ac Arferion ac Atodlenni Rheoli'r Trysorlys 2023-26 fel sydd wedi'i atodi.

Ni wnaed unrhyw newidiadau sylweddol i'r Strategaeth ers y flwyddyn flaenorol ac ni chodwyd unrhyw faterion penodol ar ôl ystyriaeth gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cabinet.

Cafodd yr argymhellion eu cynnig gan y Cynghorydd Bernie Attridge a'u heilio gan y Cynghorydd Linda Thomas.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2023/24.

(b) Cymeradwyo Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys 2023 i 2026; a

(c) Cymeradwyo Arferion ac Atodlenni Rheoli'r Trysorlys 2023 i 2026.

## 88. ISAFSWM DARPARIAETH REFENIW - POLISI 2023/24

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol yr adroddiad i gymeradwyo'r polisi blynyddol ar gyfer yr Isafswm Darpariaeth Refeniw ar gyfer ad-dalu dyledion yn ddarbodus. Cadarnhaodd nad oedd angen gwneud newidiadau i'r polisi ar gyfer 2023/24.

Cafodd yr argymhellion eu cynnig gan y Cynghorydd Bernie Attridge a'u heilio gan y Cynghorydd Linda Thomas.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo’r canlynol ar gyfer Cronfa'r Cyngor:-

- Dewis 3 (Dull Ased Bywyd) i’w ddefnyddio ar gyfer cyfrifo'r Isafswm Darpariaeth Refeniw ym mlwyddyn ariannol 2023/24 ar gyfer cydbwyso gwariant cyfalaf sy’n ddyledus ac sydd wedi’i ariannu gan fenthyca â chymorth wedi’i osod ar 31 Mawrth 2017. Bydd yn cael ei gyfrifo yn ôl y dull ‘blwydd-dal’ dros 49 mlynedd.

- Dewis 3 (Dull Ased Bywyd) i’w ddefnyddio i gyfrifo'r Isafswm Darpariaeth Refeniw yn 2023/24 ar gyfer yr holl wariant cyfalaf sydd wedi’i ariannu gan fenthyca â chymorth o 1 Ebrill 2016. Bydd yn cael ei gyfrifo yn ôl y dull ‘blwydd-dâl’ dros nifer priodol o flynyddoedd, yn ddibynnol ar y cyfnod o amser y mae’r gwariant cyfalaf yn debygol o greu buddion.

- Dewis 3 (Dull Ased Bywyd) i’w ddefnyddio i gyfrifo'r Isafswm Darpariaeth Refeniw yn 2023/24 ar gyfer yr holl wariant cyfalaf sydd wedi’i ariannu gan fenthyca (darbodus) heb gymorth neu drefniadau credyd. Bydd yn cael ei gyfrifo yn ôl y dull ‘blwydd-dâl’ dros nifer priodol o flynyddoedd, yn ddibynnol ar y cyfnod o amser y mae’r gwariant cyfalaf yn debygol o greu buddion.

(b) Cymeradwyo’r canlynol ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai:-

- Dewis 3 (Dull Ased Bywyd) i’w ddefnyddio ar gyfer cyfrifo Isafswm Darpariaeth Refeniw y Cyfrif Refeniw Tai yn 2023/24 ar gyfer cydbwyso gwariant cyfalaf sy’n ddyledus ac sydd wedi’i ariannu gan ddyled wedi’i osod ar 31 Mawrth 2017. Bydd yn cael ei gyfrifo yn ôl y dull ‘blwydd-dal’ dros 50 mlynedd.

- Dewis 3 (Dull Ased Bywyd) i’w ddefnyddio i gyfrifo'r Isafswm Darpariaeth Refeniw yn 2023/24 ar gyfer yr holl wariant cyfalaf sydd wedi’i ariannu gan ddyled o 1 Ebrill 2021. Bydd yn cael ei gyfrifo yn ôl y dull ‘blwydd-dâl’ dros nifer priodol o flynyddoedd, yn ddibynnol ar y cyfnod o amser y mae’r gwariant cyfalaf yn debygol o greu buddion.

(c) Cymeradwyo fod yr Isafswm Darpariaeth Refeniw ar fenthyciadau gan y Cyngor i NEW Homes i adeiladu cartrefi fforddiadwy drwy’r Rhaglen Tai ac Adfywio Strategol (sy’n cael eu hystyried yn wariant cyfalaf yn nhermau cyfrifeg) fel a ganlyn:-

- Ni wneir Isafswm Darpariaeth Refeniw yn ystod y cyfnod adeiladu (sy’n fyr) gan nad yw’r ased yn cael ei ddefnyddio ac nad oes unrhyw fudd o’i ddefnyddio.

- Pan fydd yr asedau’n cael eu defnyddio, bydd ad-daliadau (benthyciadau) cyfalaf yn cael eu gwneud gan NEW Homes. Bydd Isafswm Darpariaeth Refeniw’r Cyngor yn hafal i’r ad-daliadau a wnaed gan NEW Homes. Bydd yr ad-daliadau y bydd NEW Homes yn eu gwneud yn cael eu hystyried, yn nhermau cyfrifeg, yn dderbyniadau

cyfalaf, a gellir defnyddio’r rhain i ariannu gwariant cyfalaf neu i ad-dalu dyled yn unig. Bydd yr ad-daliad cyfalaf / derbyniadau cyfalaf yn cael eu neilltuo i ad-dalu dyled, a dyma yw polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw’r Cyngor ar gyfer ad-dalu'r benthyciad.

## 89. DATGANIAD POLISI TÂL 2023/24

Gofynnwyd i'r aelodau gymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2023/24 er mwyn ei gyhoeddi cyn y terfyn amser statudol. Hwn oedd yr unfed datganiad blynyddol ar ddeg i’r Cyngor ei gyhoeddi ac yr oedd yn adlewyrchu’r trefniadau presennol o ran tâl, ac yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf yn ogystal ag adran newydd yn cadarnhau sefyllfa’r Cyngor ynghylch taliadau i unigolion sy’n gadael.

Cyn ei gyhoeddi, byddai'r gwall teipograffyddol ar adran 6(iv) o'r Datganiad Polisi yn ymwneud â chyflog sylfaenol Pwynt 3 y Prif Swyddog yn cael ei gywiro.

Ar sail hynny, cynigwyd ac eiliwyd yr argymhellion gan y Cynghorwyr Bernie Attridge a Billy Mullin.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Yn amodol ar y diwygiad, cymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl drafft sydd wedi’i atodi ar gyfer 2023/24; a

(b) Rhoi awdurdod dirprwyedig i’r Rheolwr Corfforaethol (Pobl a Datblygu Sefydliadol) i roi’r wybodaeth ddiweddaraf am Ddatganiad Polisi Tâl 2023/24 yn ystod y flwyddyn i adlewyrchu unrhyw newidiadau sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth, polisi'r Llywodraeth neu drafodaethau cenedlaethol, fel ei fod yn parhau i fod yn gywir ac yn gyfredol.

## 90. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Dim.

## 91. CWESTIYNAU

Gwnaeth y Cadeirydd ganiatáu i’r Cynghorydd Helen Brown ofyn cwestiwn brys, a gafwyd ar ôl y terfyn amser:

*“Yn dilyn cyhoeddiadau 14 Chwefror gan Lee Waters a Llywodraeth Cymru, mae’n gwbl amlwg nad yw’r rhai sy’n gwneud penderfyniadau yn Ne Cymru yn ystyried ein trigolion ni yn Sir y Fflint nac ychwaith drigolion Gogledd Cymru. Dim byd, chawsom ni ddim byd. Hoffwn i ofyn i’r aelod cabinet a yw wedi gweld yr adroddiad gan Dr Lynn Sloman? Pwy yr ymgynghorwyd â hwy ynghylch canfyddiadau’r adroddiad?*

*Ymgynghorwyd yn eang ar y llwybrau Coch a Glas a arweiniodd at ymchwiliad cyhoeddus drud. Gwnaeth yr Arolygydd Annibynnol ei ddyfarniad. Pam mae Llywodraeth Cymru wedi dewis anwybyddu hyn? Pam ydym ni’n edrych ar Aston Hill unwaith eto? Nid oes unrhyw ymgynghoriad wedi’i gynnal ac nid yw hyn yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015 Llywodraeth Cymru. Mae ein cymuned ni’n ddig ei bod yn cael ei gwthio o'r neilltu unwaith eto.*

*Rwyf wedi nodi bod Ken Skates AS yn galw am ddatganoli i Ogledd Cymru, a fydd yr Arweinydd a'i Gabinet yn ei gefnogi ac yn helpu i'n galluogi ni'n lleol i wneud penderfyniadau ar gyfer ein hardal leol?"*

Roedd y cwestiwn wedi'i ddosbarthu i'r Aelodau cyn y cyfarfod, ynghyd â'r ymateb a ganlyn gan yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd a'r Strategaeth Cludiant Rhanbarthol:

*"Hoffwn ddiolch i'r Cynghorydd Brown am y cwestiwn brys.*

*Mae materion yn ymwneud â chanlyniad yr 'Adolygiad Ffyrdd', fel y byddwch chi'n sylweddoli, yn gymhleth ac mae angen ystyried nifer o ffactorau yn lleol ac yn rhanbarthol, bydd y materion hyn yn cymryd amser i weithio drwyddyn nhw gydag Aelodau, swyddogion, a'n partneriaid rhanbarthol. Rydym ni'n cydnabod bod llawer o waith ac amser wedi'i roi i ddatblygu'r cynlluniau arfaethedig yn genedlaethol ac yn lleol ac mae'n siomedig bod llawer o'r rhain bellach wedi'u tynnu oddi ar y rhaglen ffyrdd cenedlaethol. Bydd hyn yn cael sawl effaith negyddol ar ein cymunedau lleol ni a'n heconomi yn ehangach.*

*Byddwn ni'n dwyn ynghyd ddiweddariad manwl ar yr adolygiad a'r goblygiadau i Sir y Fflint a fydd yn cael ei ddosbarthu i'r Aelodau ar gyfer eu sylwadau; fodd bynnag, mae'n bwysig deall efallai y bydd angen trafod y ffordd orau i symud ymlaen a gwneud cynnydd ar y mater pwysig hwn ar lefel genedlaethol a rhanbarthol."*

Wrth ddefnyddio ei hawl i ofyn cwestiwn atodol, gofynnodd y Cynghorydd Brown am ymateb penodol i baragraff olaf ei chwestiwn y dywedodd nad oedd wedi'i drafod.

Wrth ymateb, dywedodd y Cynghorydd Ian Roberts fod trafodaethau rhanbarthol yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd ac nad oedd yn gallu ymhelaethu arnynt o ganlyniad i faterion cyfrinachedd.

**92. RHYBUDD O GYNNIG**

Dim.

**93. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU YNGLŶN Â CHOFNODION Y PWYLLGOR**

Dim.

**94. AELODAU'R WASG YN BRESENNOL**

Roedd un aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2pm a daeth i ben am 5.55pm)

………………………..
**Y Cadeirydd**